TYWYN

# THE MAGIC LANTERN

CINEMA

**January 2025** **Ionawr 2025**




## FILMS • LIVE MUSIC • THEATRE • SPECIAL EVENTS

## FFILMIAU • CERDDORIAETH FYW • THEATR • DIGWYDDIADAU ARBENNIG



# Welcome! Croeso!

## Table of Contents
## Tabl Cynnwys


**Films Showing**

Anora ........ 9
Better Man ........ 8
Blitz ........ 6
Gladiator II ........ 5
Heretic ........ 8
Juror #2 ........ 8
Maria ........ 9
Maya and the Wave ........ 7
Moana 2 ........ 5
Mufasa ........ 6
My Favourite Cake ........ 5
No Other Land ........ 7
Paddington In Peru ........ 5
Red One ........ 5
Rumours ........ 6
Sonic The Hedgehog 3 ........ 9
The Wild Robot ........ 5
Transformers One ........ 5
We Live In Time ........ 9
Wicked ........ 5
**Cinema Merchandise** ........ 19
**Film Club** ........ 16
**January Listings** ........ 10 - 11
**Music Nights** ........ 14 - 15
**Members** ........ 17
**Special Events** ........ 12 - 13
Cocktail Night & Grease ........ 12
Girl from the North Country ........ 13
Macbeth with David Tennant ........ 13
Theatre On Screen ........ 12
Quiz Night ........ 12
**Warm Food Warm Spaces** ........ 18


## Dates for your diary




Saturday 1st February
**Classics & Cocktails: Grease** (See page 12)




Saturday 8th Feb – Theatre on Screen (See page 13)
**Macbeth: David Tennent and Cush Jumbo**




Saturday 22nd February – Theatre on Screen
**Les Misérables - The Staged Concert**




Thursday 27th March –
**Lantern Comedy Club with Little Wander**




Saturday 29th March – Theatre on Screen
**Jesus Christ Superstar**



# 2025 New Ideas for the New Year!

**What better time to action some ideas inspired by your positive and constructive feedback over 2024?**

- Due to reduced evening train services to Tywyn, we are programming more daytime screenings and wherever possible we'll TRY to fit with the train timetable.
- From January 2nd the cinema will be open from 2pm - 9pm Monday to Saturday and 10am –4pm on Sundays so you can pop in and buy tickets or pick up a programme. If there is no film playing, there are also times when you can have a coffee, or even enjoy a board game afternoon! .
- We will stay open after daytime screenings, so if you need a warm place to chill until it's time for your train – please use our foyer bar.
- Thursdays between 3pm and 6pm we'd love to host local charities/groups who may want to raise funds with a coffee afternoon. If you are interested, please email us at **tywyncinema@gmail.com.**

With so many changes and new events, - please make sure you don't miss out! Sign up for our weekly listings newsletter via the website **www.tywyncinema.co.uk** – click on the 'Keep in Touch' section and the 'NewsletterSignup'.

**Happy New Year to everyone from the Magic Lantern Crew !**

**Pa amser gwell i symud ymlaen gyda rhai syniadau sydd wedi'u hysbrydoli gan eich adborth positif ac adeiladol yn ystod 2024?**

- Oherwydd gwasanaethau cyfyngedig i Dywyn, rydym yn rhaglennu mwy o ddangosiadau yn ystod y dydd a phan mae'n bosib, byddwn yn CEISIO rhoi hyn ar waith i gyd-fynd gyda'r amserlen drenau.
- O 2ail Ionawr bydd y sinema ar agor o 2pm - 9pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a 10am - 4pm ar ddyddiau Sul felly gallwch alw heibio i brynu tocynnau neu i godi rhaglen. Os nad oes ffilm yn cael ei dangos, mae yna hefyd adegau lle gallwch gael coffi, neu fwynhau brynhawn yn chwarae gemau bwrdd!
- Byddwn yn aros ar agor wedi dangosiadau yn ystod y dydd, felly os ydych chi angen lle cynnes i ymlacio ynddo nes daw hi'n amser i'ch trên gyrraedd yna mae croeso i chi ddefnyddio bar y cyntedd.
- Ar ddyddiau Iau rhwng 3pm a 6pm byddem wrth ein bodd yn rhoi lle i elusennau/grwpiau lleol sydd eisiau codi arian gyda phrynhawn coffi. Os oes gennych chi ddiddordeb, ebostiwch ni os gwelwch yn dda: **tywyncinema@gmail.com.**

Gyda chymaint o newidiadau a digwyddiadau newydd, gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n colli cyfle! Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr dangosiadau wythnosol drwy'r wefan **www.tywyncinema.co.uk** – cliciwch ar yr adran 'Keep in Touch' a 'NewsletterSignup'.

**Blwyddyn Newydd Dda i bawb o griw y Magic Lantern!**

## MAGIC MONDAY (MM)

Most Mondays at 11am.

**Relaxed Screening**

Free from 9th Dec to the end of February and includes free soup after the film.
Thanks to Tywyn Community Hub

**Am ddim o 9 Rhagfyr tan ddiwedd mis Chwefror ac mae'n cynnwys cawl am ddim ar ôl y ffilm. Diolch i Ganolfan Gymunedol Tywyn**

## LITTLE LANTERNEERS (LL)

Every Sunday at 11am.
All tickets £3. **Relaxed Screening**
Anyone under 12 must be accompanied by an adult.

**Pob dydd Sul am 11am. Pob tocyn £3.**

**Relaxed Screening**

**Rhaid i blant dan 12 oed gael cw mni oedolyn.**

## What is a Relaxed Screening?

**These films are for those who may find one of our usual screenings challenging.**

- The lights are kept on low
- The sound is turned down
- Talking and moving around is absolutely fine
- The bar remains open throughout the film
- The film will have descriptive subtitles where possible

## Beth yw Sgrinio Hamddenol?

**Mae'r ffilmiau hyn ar gyfer y rhai a allai fod yn gweld un o'n dangosiadau arferol yn heriol.**

- Mae'r goleuadau yn cael eu cadw'n isel
- Mae'r sŵn yn cael ei droi i lawr
- Mae siarad a symud o gwmpas yn berffaith
- Mae'r bar ar agor drwy gydol y ffilm
- Bydd gan y ffilm is-deitlau disgrifiadol lle bo hynny'n bosibl

## TEEN SCREENS (TS)

Every Wednesday at 4pm
The Lantern will be open from 3pm so Tywyn School pupils are welcome to come straight from school.
Tickets for 12 - 19 year olds are £5 and include a small popcorn and a soft drink.

**All welcome but standard tickets apply to non teens!**

**Pob dydd Mercher am 4pm. Bydd Y Llusern ar agor o 3pm felly mae croeso i ddisgyblion Ysgol Tywyn ddod draw yn syth o'r ysgol. Mae tocynnau i'r rhai rhwng 12 - 19 oed yn costio £5 ac yn cynnwys popgorn bach a diod feddal neu sudd/cordial. Mae croeso i bawb ond mae prisiau tocynnau arferol yn berthnasol i'r rhai nad ydynt yn eu harddegau!**

## GOLDEN AGERS (GA)

Every Thursday afternoon. **HOH**
If you are over the golden age of 60 then tickets are £4 and include a cup of tea or filter coffee.

**All Welcome but special ticket price for over 60s only.**

**HOH Pob prynhawn Iau, os ydych dros eich 60 yna mae tocynnau yn costio £4 gan gynnwys paned o de neu goffi hidl. Mae croeso i bawb ond mae prisiau tocynnau arferol yn berthnasol i'r rhai dan 60.**

**HOH** – HARD OF HEARING
These films will include descriptive subtitles.
**Bydd y ffilmiau hyn yn cynnwys isdeitlau disgrifiadol.**

**MM** – Magic Monday / **Dyddiau Llun Llawn Hud**

**TS** – Teen Screen / **Arddangosiadau i'r Arddegau**

**LL** – Little Lanterneers / **Llusernwyr Bach**

**GA** – Golden Agers / **Gwylwyr Euraidd**







MM GA

### Gladiator II
15 2hr 28m

After the death of Maximus, Lucius is forced to enter the Colosseum.

**Ar ôl marwolaeth Maximus, mae Lucius yn cael ei orfodi i fynd i mewn i'r Colosseum.**



LL

### Paddington in Peru
PG 1hr 42m

Paddington is back for another round of adventures!

**Mae Paddington yn ôl am rownd arall o anturiaethau!**




LL TS

### Moana 2
PG 1hr 40m

We are so excited for the return of Disney's most sea-loving and strong-willed princesses. After receiving an unexpected call from her wayfinding ancestors, Moana journeys to the far seas of Oceania and into dangerous, long-lost waters for an adventure unlike anything she has ever faced.

**Rydym mor gyffrous o weld tywysoges Disney mwyaf penderfynol a mwyaf cariadus y môr yn dychwelyd. Ar ôl derbyn galwad annisgwyl gan ei chyndeidiau sy'n dod o hyd i ffordd, mae Moana yn teithio i foroedd pellaf Oceania ac i ddyfroedd peryglus, colledig am antur wahanol i unrhyw beth y mae hi erioed wedi'i wynebu.**




MM GA

### My Favourite Cake
12A 1hr 37m

A chance encounter becomes a memorable evening.

**Mae cyfarfod ar hap yn troi'n noson i'w chofio.**




TS

### Red One
2A 2hr 3m

Dwayne Johnson must team up with the world's most infamous bounty hunter to save Christmas.

**Rhaid i Dwayne Johnson ymuno â heliwr bounty mwyaf gwaradwyddus y byd i achub y Nadolig.**




LL

### The Wild Robot
U 1hr 42m

A robot finds herself stranded on a remote island.

**Mae robot yn cael ei hun yn sownd ar ynys anghysbell.**



LL

### Transformers One
PG 1hr 44m

This is the untold origin story of Optimus Prime and Megatron, better known as sworn enemies.

**Dyma stori darddiad heb ei hadrodd Optimus Prime a Megatron, sy'n fwy adnabyddus fel gelynion tyngu.**




MM TS GA

### Wicked
PG 2hr 40m

Wicked tells the story of Elphaba and her friendship with Glinda, the Good Witch of the North.

**Mae Wicked yn adrodd hanes Elphaba a'i chyfeillgarwch â Glinda, Gwrach Dda'r Gogledd.**




### Mufasa PG 2hr

**Starring: Beyonce, Thandiwe Newton, Mads Mikkelsen**
**Genre: Family/Adventure/Animation**

Experience the epic story of how an Orphan became a King. Told in flashbacks, the story introduces Mufasa as a cub, lost and alone until he meets a sympathetic lion named Taka - the heir to a royal bloodline.

**Profwch stori epig ynghylch sut y daeth un Amddifad yn Frenin. Wedi'i hadrodd mewn ôl-fflachiadau, mae'r stori'n cyflwyno Mufasa fel cenau amddifad, ar goll ac yn unig, hyd nes iddo gwrdd â llew cydymdeimladol o'r enw Taka - etifedd i linach frenhinol.**




### Blitz 12A 2hr

Starring: Saoirse Ronan, Elliott Heffernan, Harris Dickinson
Genre: Action/Drama/History/War

In World War II London, nine-year-old George is evacuated to the countryside by his mother, Rita, to escape the bombings. Defiant and determined to return to his family, George embarks on a journey back home as Rita searches for him.

**Yn Llundain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae'r bachgen naw mlwydd oed, George yn cael ei anfon yn faciwî i gefn gwlad gan ei fam, Rita, er mwyn dianc rhag y bomiau. Yn herfeiddiol ac yn benderfynol o ddychwelyd at ei deulu, mae George yn dechrau ar daith adref wrth i Rita chwilio amdano.**




### Rumours
15 1hr 44m

Starring: Cate Blanchett, Rolando Ravello, Alicia Vikander
Genre: Dark Comedy/Satire/Zombie

Ricocheting between comedy, apocalyptic horror and soap opera, this crazy film follows the leaders of seven wealthy democracies who get lost in the woods while drafting a statement on a global crisis - facing danger as they attempt to find their way out.

**Gan adlamu rhwng comedi, arswyd apocalyptaidd ac opera sebon, mae'r ffilm wallgof hon yn dilyn arweinwyr saith democratiaeth gyfoethog sy'n mynd ar goll yn y goedwig wrth lunio datganiad ar argyfwng byd-eang - gan wynebu peryglon wrth iddynt geisio dod o hyd i'r ffordd allan.**








### Maya and the Wave 12A 1hr 54m

**Starring: Maya Gabeira, Carlos Burle, Ross Clarke-Jones**
**Genre: Documentary**

Tull Stories' masterful independent film curation brings us another wonder! Filmmaker Stephanie Johnes' thrilling documentary follows world-champion Brazilian surfer Maya Gabeira, who battles against monster waves as well as chauvinism in the field of competitive surfing. The story and the visuals are equally stunning.

**Mae curadu ffilmiau annibynnol meistrolgar Tull Stories yn cyflwyno rhyfeddod arall i ni! Mae ffilm ddogfen llawn cyffro y gwneuthurwr ffilm, Stephanie Jones yn dilyn syrffiwr byd enwog o Frasil, Maya Gabeira, sy'n brwydro yn erbyn tonnau anferthol a siofiniaeth ym maes syrffio cystadleuol. Mae'r stori a'r elfen weledol yr un mor drawiadol â'i gilydd.**

**ONE OFF SCREENING**

### No Other Land 15 1hr 35m

**Starring: Yuval, AbrahamBasel, AdraHamdan Ballal**
**Genre: Documentary**

For half a decade a Palestinian activist films his community of Masafer Yatta being destroyed by Israel's occupation, as he builds an unlikely alliance with an Israeli journalist who wants to join his fight.

**Am hanner degawd mae actifydd Palesteinaidd, yn ffilmio ei gymuned o Masafer Yatta yn cael ei dinistrio gan feddiannaeth Israel, wrth iddo adeiladu cynghrair annhebygol gyda newyddiadurwr o Israel sydd eisiau ymuno â'i frwydr.**






## Heretic 15 1hr 51m

**Starring: Hugh Grant, Sophie Thatcher, Chloe East**
**Genre: Psychological Horror/Thriller**

Hugh Grant was born to play this brooding yet funny role! Two young missionaries knock on the wrong door and are greeted by the diabolical Mr. Reed - becoming ensnared in his deadly game of cat-and-mouse

**Mae Hugh Grant yn berffaith ar gyfer chwarae'r rhan ddwys hon sydd ar yr un pryd yn ddoniol! Mae cenhadon ifanc yn cnocio ar y drws anghywir ac yn cael eu cyfarch gan Mr Reed beryglus - gan gael eu dal yn ei gêm farwol o gath a llygoden.**




## Juror #2 12A 114m

**Starring: Toni Collette, Nicholas Hoult**
**Genre: Legal Thriller**

This exciting thriller follows a family man who, while serving as a juror in a high-profile murder trial, finds himself struggling with a serious moral dilemma... one that could sway the jury verdict and potentially convict - or free - the accused killer.

**Mae'r ffilm llawn ias a chyffro yma yn dilyn dyn teulu sydd, ar yr un pryd â bod yn gwasanaethu fel aelod o reithgor mewn achos o lofruddiaeth proffil uchel, yn canfod ei fod ef ei hun yn brwydro gyda phroblem foesol ddifrifol... un a allai lywio barn y rheithgor ac a allai, o bosib, sicrhau dedfryd - neu ryddid - i'r llofrudd sydd wedi'i gyhuddo.**




## Better Man 15 TBC 2hr 14m

**Starring: Robbie Williams, Alison Steadman, Jonno Davies**
**Genre: Docudrama/Fantasy/Musical/Biography**

Robbie Williams: The story of the meteoric rise, dramatic fall, and remarkable resurgence of this British pop superstar. This is not a normal biopic as the beloved entertainer is portrayed by a CGI monkey!

**Robbie Williams: Stori am y seren bop Brydeinig, a gododd i enwogrwydd byd-eang cyn i'w yrfa lithro'n ddramatig i'r dyfnderoedd - ac yntau yn dilyn hynny ailgydio yn ei yrfa mewn ffordd ryfeddol. Nid biopig arferol mo'r ffilm hon gan fod y diddanwr hoff yn cael ei bortreadu gan fwnci CGI!**








## Anora 18 2hr 18m

**Starring: Micky Madison, Paul Weissman**
**Genre: Drama/Comedy/Romance**

This is a modern day Cinderella story from director Sean Baker. Anora, a young sex worker from Brooklyn meets and impulsively marries the son of an oligarch. But once the news reaches Russia, her fairytale is threatened as the parents set out for New York to get the marriage annulled.

**Dyma stori Sinderela fodern gan y cyfarwyddwr Sean Baker. Mae Anora, gweithiwr rhyw ifanc o Brooklyn yn cwrdd â mab i oligarch ac ar chwiw yn penderfynu ei briodol. Ond unwaith mae'r newyddion yn cyrraedd Rwsia, mae ei stori dylwyth teg dan fygythiad wrth i'r rhieni gychwyn am Efrog Newydd er mwyn cael y briodas wedi'i dirymu.**




## We Live In Time 15 1hr 47m

**Starring: Florence Pugh, Andrew Garfield**
**Genre: Feel-good Romance/Drama**

An up-and-coming chef and a recent divorcée find their lives forever changed when a chance encounter brings them together, in a deeply moving romance that spans a decade

**Mae cogydd uchelgeisiol a gwraig sydd wedi ysgaru'n ddiweddar yn canfod bod eu bywydau'n newid am byth pan mae digwyddiad ar hap yn eu dwyn ynghyd, mewn stori ramant deimladwy iawn sy'n ymestyn dros ddegawd.**




## Sonic the Hedgehog 3 PG 1hr 50m

**Starring: Idris Elba, Keanu Reeves**
**Genre: Superhero/Adventure/Action/Nostalgia**

Sonic, Knuckles, and Tails reunite against a powerful new adversary, Shadow, a mysterious villain with powers unlike anything they have faced before. With their abilities outmatched, Team Sonic must seek out an unlikely alliance!

**Mae Sonic, Knuckles, a Tails yn ailuno yn erbyn gwrthwynebydd newydd, pwerus, Shadow, dihiryn llawn dirgelwch gyda phwerau sy'n ann-hebyg i unrhywbeth maent wedi'i weld erioed o'r blaen. Gyda'u galluoedd yn gwegian, mae'n rhaid i Team Sonic chwilio am gynghrair annisgwyl!**




## Maria 15 TBC 2hr 4m

**Starring: Angelina Jolie, Alba Rohrwacher,**
**Genre: Period Drama/Tragedy/Biography**

Angelina Jolie delivers a masterful and heart-breaking performance, exploring the tumultuous, beautiful and tragic story of the life of the world's greatest female opera singer. Maria Callas's life is relived and reimagined during her final days in 1970s Paris.

**Mae Angelina Jolie yn rhoi perfformiad meistrol-gar, sy'n torri calon, gan archwilio' stori dym-hestlog, hardd a thrasig bywyd un o gantoresau opera mwya'r byd. Caiff bywyd Maria Callas ei ail-fyw a'i ailddychmygu yn ystod ei dyddiau olaf ym Mharis y 1970au.**

| Date | Time | Film | Duration | Notes |
|---|---|---|---|---|
| Wed 1 | 12pm | Moana 2 PG | 1hr 40m | **Relaxed** |
| | 3.30pm | Wicked PG | 2hr 40m | **Relaxed** |
| | 7.30pm | Red One 12A | 2hr 3m | |
| Thu 2 | 12.15pm | Transformers One PG | 1hr 44m | |
| | 3.30pm | Moana 2 PG | 1hr 40m | |
| | 7pm | Wicked PG | 2hr 40m | |
| Fri 3 | 11.30am | Mufasa PG | 2hr | |
| | 3.15pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 7pm | Rumours 15 | 1hr 44m | |
| Sat 4 | 11.30am | Mufasa PG | 2hr | |
| | 3.15pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 7pm | Rumours 15 | 1hr 44m | |
| Sun 5 | 11am | The Wild Robot U | 1hr 42m | **LL** |
| | 2pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 5.30pm | Mufasa PG | 2hr | |
| Mon 6 | 11am | Gladiator 2 15 | 2hr 28m | **MM** |
| | 1pm - 3pm | **Warm Food Warm Space** | | |
| | 3.30pm | Mufasa PG | 2hr | **HOH** |
| | 7pm | Rumours 15 | 1hr 44m | **HOH** |
| Tue 7 | 2.30pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 6pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | |
| Wed 8 | 1pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 4pm | Red One 12A | 2hr 3m | **TS** |
| | 7.30pm | Rumours 15 | 1hr 44m | |
| Thu 9 | 1pm | Gladiator II 15 | 2hr 28m | **GA** |
| | 4.45pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 8pm | Mufasa PG | 2hr | |
| Fri 10 | 1.30pm | **Warm Food Warm Space Board Games Afternoon** | | |
| | 6pm | Heretic 15 | 1hr 51m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with Katie Euliss West** | | |
| Sat 11 | 1pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 4.30pm | Juror #2 12A | 1hr 54m | |
| | 8pm | Closed for Private Event | | |
| Sun 12 | 11am | Paddington in Peru PG | 1hr 42m | **LL** |
| | 2pm | Mufasa PG | 2hr | |
| | 5.30pm | Blitz 12A | 2hr | |
| Mon 13 | 11am | Conclave 12A | 2hr | **MM** |
| | 1pm - 3pm | **Warm Food Warm Space** | | |
| | 3.30pm | Heretic 15 | 1hr 51m | **HOH** |
| | 7pm | Blitz 12A | 2hr | **HOH** |
| Tue 14 | 1.45pm | Heretic 15 | 1hr 51m | |
| | 6pm | Juror #2 12A | 1hr 54m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | |
| Wed 15 | 4pm | Wicked PG | 2hr 40m | **TS** |
| | 8pm | Heretic 15 | 1hr 51m | |
| Thu 16 | 1pm | Conclave 12A | 2hr | **GA** |
| | 3pm -6pm | **Cafe Bar Open** | | |
| | 7pm | Juror #2 12A | 1hr 54m | **Film Club** |

| Date | Time | Film | Duration | Notes |
|---|---|---|---|---|
| Fri 17 | 1.30pm | **Warm Food Warm Space Board Games Afternoon** | | |
| | 6pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with So Sista** | | |
| Sat 18 | 3.30pm | Maya & the Wave 12A | 1hr 54m | |
| | 7pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | |
| Sun 19 | 11am | Moana 2 PG | 1hr 40m | **LL** |
| | 2pm | No Other Land 15 | 1hr 35m | |
| | 5pm | Anora 18 | 2hr 18m | |
| Mon 20 | 11am | My Favourite Cake 12A | 1hr 37m | **MM** |
| | 1pm - 3pm | **Warm Food Warm Space** | | |
| | 7pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | **HOH** |
| Tue 21 | 1.45pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | |
| | 6pm | Maya and the Wave 12A | 1hr 54m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | |
| Wed 22 | 4pm | Moana 2 PG | 1hr 40m | **TS** |
| | 7.30pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | |
| Thu 23 | 1pm | My Favourite Cake 12A | 1hr 37m | **GA** |
| | 3.45pm | Better Man 15 TBC | 2hr 14m | |
| | 7pm | Anora 18 | 2hr 18m | **Film Club** |
| Fri 24 | 1.30pm | **Warm Food Warm Space Board Games Afternoon** | | |
| | 6pm | We Live in Time 15 | 1hr 47m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with Broster & West** | | |
| Sat 25 | 3.30pm | Sonic The Hedgehog 3 PG | 1hr 50m | |
| | 7.30pm | **Girl from the North County** | | *Doors 6pm* |
| Sun 26 | 11am | Transformers One PG | 1hr 44m | **LL** |
| | 2pm | Sonic The Hedgehog 3 PG | 1hr 50m | |
| | 5pm | **Members Screening** | | *Film at 6pm* |
| Mon 27 | 11am | Wicked PG | 2hr 40m | **MM** |
| | 1pm - 3pm | **Warm Food Warm Space** | | |
| | 7pm | We Live in Time 15 | 1hr 47m | **HOH** |
| Tue 28 | 1.45pm | We Live in Time 15 | 1hr 47m | |
| | 6pm | Sonic The Hedgehog 3 PG | 1hr 50m | |
| | 9pm | **Quiz Night** | | |
| Wed 29 | 4pm | Maya and the Wave 12A | 1hr 54m | **TS** |
| | 7.30pm | We Live in Time 15 | 1hr 47m | |
| Thu 30 | 1pm | Wicked PG | 2hr 40m | **GA** |
| | 3pm - 6pm | **Café Bar Open** | | |
| | 7pm | We Live in Time 15 | 1hr 47m | |
| Fri 31 | 1.30pm | **Warm Food Warm Space Board Games Afternoon** | | |
| | 6pm | Maria 15 TBC | 2hr 4m | |
| | 9pm | **Friday Night is Music Night with Kim & Lee with Peter Buckley Hill** | | |
| | | **FEBRUARY / CHWEFROR** | | |
| Sat 1 | 3pm | Maria 15 TBC | 2hr 4m | |
| | 7.30pm | **Classics & Cocktails - Grease** PG | | *Doors open 6pm. Bar open till midnight* |

## QUIZ NIGHT

Ian & Claire Hughes's Tuesday night quizzes are legendary! Quiz starts at 9pm every Tuesday, with doors at 8:30pm. Cost is £1 per player. Everyone is very welcome - come early to get a table in the bar as we may have to spread out to tables in the main hall. Wherever you are you will have a great night!

**Mae nosweithiau cwis nos Fawrth Ian a Claire Hughes yn enwog! Mae'r cwis yn dechrau m 9pm bob nos Fawrth, gyda'r drysau'n agor am 8.30pm. Y pris yw £1 y pen. Mae croeso i bawb - dewch yn gynnar i gael bwrdd wrth y bar gan y bydd hi'n bosibl y byddwn yn gorfod gosod byrddau yn y brif neuadd. Ble bynnag y byddwch, fe gewch noson wych!**

## Theatre On Screen

New for 2025!

### Let's make Theatre Nights special!

Our Theatre Nights will now be on Saturdays and we want to make them nights out to remember.

Our Foyer Bar will be open from 6pm for our usual food & drink, or there's a special Pre-order-ONLY "Treading the Board" supper platter which can be booked at the same time as your tickets! The platters will be a selection of meats, cheeses, breads, fruits, veg, dips, and nuts. Vegetarian and vegan options will be available. Classy cocktails and sassy ice cream sundaes will also be available – why not pre order for the interval or for post-show? Our bar will stay open till Midnight so you can carry on after the show, enjoying cocktails and chat!

The Magic Lantern crew will be wearing their fancy waistcoats, so why not dress up too and add to the sense of occasion!

**Yn newydd ar gyfer 2025! Beth am wneud Nosweithiau Theatr yn rhai arbennig! Bydd ein Nosweithiau Theatr nawr ar ddyddiau Sadwrn ac rydym ni am eu gwneud yn nosweithiau i'w cofio.**

**Bydd Bar y Cyntedd ar agor o 6pm am ein bwyd a diod arferol, neu mae yna bryd sydd ar gael i'w rhag-archebu'n UNIG, sef plataid swper 'Troedio'r Byrddau' y gallwch ei archebu ar yr un pryd â'ch tocynnau.**

**Bydd y plateidiau yn cynnwys detholiad o gigoedd, cawsiau, bara, ffrwythau, llysiau, dipiau a chnau. Bydd dewisiadau llysieuol a fegan ar gael.**

**Bydd coctels clasurol a hufen iâ syndi, llawn steil ar gael hefyd - beth am rag-archebu ar gyfer yr egwyl neu wedi'r sioe?**

**Bydd ein bar yn aros ar agor nes Hanner Nos felly gallwch barhau i fwynhau eich hun gyda choctel a sgwrs wedi'r sioe!**

**Bydd Criw The Magic Lantern yn gwisgo eu gwasgodau ffansi, felly beth am wisgo i fyny hefyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur!**




## Cocktails and Classics – Grease

Saturday 1st February
Tickets £10 Standard, Members £7.50

We are bringing the 1978 classic to the Lantern and celebrating with a night of themed cocktails and fancy dress!

Gather your gang, get dressed in pink or leather or other - and brighten up your January with the first of 2025's 'Cocktails & Classics' Season!!

**Rydym yn dod â chlasur o 1978 i'r Lantern ac yn dathlu gyda noson o goctels gyda thema a gwisg ffansi!**

**Dewch â chriw at ei gilydd, gwisgwch binc neu ledr neu unrhyw beth arall - a dewch ag ychydig o fwrlwm i'ch mis Ionawr gyda Thymor Coctels a Chlasuron cyntaf 2025!**




## Girl from the North Country

Saturday 25th January 7.30pm Doors from 6pm

Written and directed by Conor McPherson and featuring Tony Award-winning orchestrations by Simon Hale, Girl From The North Country reimagines 20 legendary songs of Bob Dylan as they've never been heard before, including: 'Forever Young', 'All Along The Watchtower', 'Hurricane', and 'Like A Rolling Stone'. It's 1934 in Duluth, Minnesota. We meet a group of wayward travellers whose lives intersect in a guesthouse filled with music, life and hope. Experience this "profoundly beautiful" Broadway production (The New York Times) brought to vivid life by an extraordinary company of actors and musicians.

**Wedi'i ysgrifennu gan Conor McPherson ac yn serennu offeryniaeth arobryn Tony gan Simon Hale, mae Girl From The North Country yn ailddychmygu 20 o ganeuon chwedlonol Bob Dylan fel na chlywyd hwy erioed o'r blaen, gan gynnwys: 'Forever Young', 'All Along The Watchtower', 'Hurricane', a 'Like A Rolling Stone'. Mae'n 1934 yn Duluth, Minnesota. Rydym yn cwrdd â chriw o deithwyr penderfynol y mae eu bywydau yn gor-gyffwrdd mewn gwesty sy'n llawn cerddoriaeth, bywyd a gobaith. Profwch y cynhyrchiad Broadway "hynod o hardd" yma (The New York Times) sy'n dod yn fyw iawn gan gwmni anghyffredin o actorion a cherddorion.**




## Macbeth: David Tennant & Cush Jumbo

Saturday 8th February
7.30pm Doors from 6pm

We are thrilled to be able to show Macbeth with the masterful David Tennant and Cush Jumbo for a special one night event on Saturday 8th February. David Tennant and Cush Jumbo lead a stellar cast in an 'enthralling' (★★★★★ Daily Telegraph) new production of Shakespeare's MACBETH, filmed live at the Donmar Warehouse in London, especially for the big screen.

**Rydym yn hynod falch o allu dangos Macbeth sy'n cael ei chwarae'n fedrus gan David Tennant a Cush Jumbo am ddigwyddiad un noson arbennig ar nos Sadwrn 8fed Chwefror. Mae David Tennant a Cush Jumbo yn arwain criw o'r sêr disgleiriaf mewn cynhyrchiad newydd 'cyfareddol' (★★★★★ Daily Telegraph) o MACBETH Shakespeare, wedi'i ffilmio'n fyw yn y Donmar Warehouse yn Llundain, yn arbennig ar gyfer y sgrin fawr.**

**Every Friday night we have live music in the bar. It's always fabulous and always FREE! Under 15's must be accompanied by an adult.**

**Mae gennym gerddoriaeth fyw yn y bar, bob nos Wener. Noson wych, am ddim, bob amser. Rhaid i blant a phobl ifanc o dan 15 gael cwmni oedolyn**

## Friday 10th January
### Katie Euliss West



What a start to the New Year! Katie is a hugely talented songwriter and performer and will be treating us to a night of original live music.
You can expect a real mix of music that ranges from dark hillbilly blues to irresistible pop.

**Am ddechrau o'r flwyddyn newydd! Mae Katie yn gyfansoddwr caneuon a pherfformiwr hynod dalentog a bydd yn ein trin i noson o gerddoriaeth fyw wreiddiol.
Gallwch ddisgwyl cymysgedd go iawn o gerddoriaeth sy'n amrywio o felan tywyll hillbilly i bop anorchfygol.**

## Friday 17th January
### So Sista



So Sista! are an exciting 6-piece rock, pop and soul band from Aberystwyth, Ceredigion.
The band prides itself on its full, professional sound with superb lead and harmony vocals, tight drums and bass, melodic and rhythmic electric and acoustic guitars and multi layered keyboards and FX.

**Band roc, pop a 'soul' chwe aelod o Aberystwyth, Ceredigion ydy So Sista! Mae'r band yn ymfalchïo yn ei sain lawn a phroffesiynol, gyda phrif leisydd a harmonïau gwych, sŵn drymiau a bas tynn, gitarau trydan ac acwstig melodaidd a rhythmig, ac allweddellau a FX amlhaenog.**

## Friday 24th January
### Broster & West Album Launch



One of our favourite acts of last year have released their first album. Nick Broster and Mike West share a love of soulful country and bluegrass. They trade off songs, backing each other up on various road-worn acoustic instruments, creating an intimate and engaging blend of bluegrass, folk and country.

**Mae rhai o'n hoff artistiaid o'r llynedd wedi rhyddhau eu halbwm cyntaf. Mae Nick Broster a Mike West yn rhannu hoffter o ganu gwlad lleddf a chanu'r tir glas. Maent yn cyfnewid caneuon ac yn cyfrannu at waith offerynnol cefndirol i'w gilydd ar offerynnau acwstig sydd wedi bod ar ambell i daith, gan greu cyfuniad dengar, agos atoch o ganu tir glas, canu gwerin a chanu gwlad.**

**FREE ENTRY / AM DIMM Doors 8.30pm for 9pm start**



Friday Night is **Music Night**

## Friday 31st January
### Kim & Lee plus Peter Buckley Hill



We love Kim & Lee! They always put on an amazing show AND introduce incredible musicians to The Magic Lantern. This month we are thrilled to welcome Peter Buckley Hill - Writer of funny and quirky songs about all sorts of things from test tubes to noseless dogs. Founder and Chair of the Free Fringe in Edinburgh. Winner, Edinburgh Comedy Awards Panel Prize. Best known for singing late at night in a rapidly emptying field in Cambridge. Not bad, if you like that sort of thing.

**Rydym ni'n caru Kim a Lee! Maen nhw wastad yn rhoi sioe anhygoel ymlaen AC yn cyflwyno cerddorion anhygoel i'r Magic Lantern. Y mis hwn rydym wrth ein bodd yn croesawu Peter Buckley - Ysgrifennwr nifer o ganeuon doniol, gwahanol am bob math o bethau, o diwbiau profi i gŵn heb drwynau. Sylfaenydd a Chadeirydd y 'Free Fringe' yng Nghaeredin, Enillydd Gwobr Panel Dyfarnu Comedi Caeredin. Mae'n fwyaf adnabyddus am ganu'n hwyr y nos mewn cae sy'n prysur wagio yng Nghaeredin. Ddim yn rhy ddrwg, os ydych chi'n hoffi'r math yna o beth.**

## Friday 7th February
### Open Mic Night



The Open Mic Nights have been running at the Lantern since 2011 and they're a highlight of the month, celebrating our brilliant local music scene. Please email us to book a performer slot - all musical styles welcome.
Are you a local business or organisation interested in sponsoring our Friday Nights? For details or a chat about sponsorship, please email saramagiclantern@gmail.com.

**Mae'r Nosweithiau Meic Agored wedi cael eu cynnal yn y Llusern ers 2011, a dyma uchafbwynt y mis, sy'n dathlu ein sîn gerddoriaeth leol ragorol. Anfonwch e-bost atom i drefnu slot perfformiwr – mae croeso i bob arddull cerddorol.
Ydych chi'n fusnes neu'n sefydliad lleol fyddai gan ddiddordeb i noddi ein Nosweithiau Gwener? Am fanylion neu sgwrs ynghylch noddi, ebostiwch saramagiclantern@gmail.com. os gwelwch yn dda.**




Each month the club chooses what films they would like to see and then meets afterwards to discuss them. It's a friendly and informal group – everyone is more than welcome and the idea is to have a chat about the film and provide extra information about the film, the cast and the director. You can join our Facebook Group - Magic Lantern Film Club or email lanternfilmclub@gmail.com

**Supported by Film Hub Wales as part of the BFI Film Audience Network (FAN), made possible by the National Lottery.**

Bob mis, bydd y clwb yn dewis pa ffilmiau yr hoffai'r aelodau eu gweld ac yna'n cyfarfod wedyn i'w trafod. Mae'n grŵp cyfeillgar ac anffurfiol – mae croeso cynnes i bawb, a'r syniad yw cael sgwrs am y ffilm a rhoi rhagor o wybodaeth am y ffilm, y cast a'r cyfarwyddwr. Gallwch ymuno â'n Grŵp Facebook - Magic Lantern Film Club neu e-bostiwch lanternfilmclub@gmail.com

**Cefnogir gan Ganolfan Ffilm Cymru fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm y BFI (FAN), a wedi wnaed yn bosib gan y Loteri Genedlaethol.**

This month's meetings will take place after the film on the following dates:

Thursday 16th January - **Juror #2**

Thursday 23rd January - **Anora**

Cynhelir cyfarfodydd y mis hwn ar ôl y ffilmiau a gynhelir ar y dyddiadau a ganlyn:

Dydd Iau 16 Ionawr - **Juror #2**

Dydd Iau 23 Ionawr - **Anora**

## Cryptic Quiz!

**Try your hand at these cryptic clues courtesy of our Quizmaster Ian Hughes.**

All are famous movie titles.

1. **Conflict of the celebrities**
2. **Went in 0.069% of the day**
3. **Disoriented marine marker**

Answers on the back page .



## Top 5 reasons to become a member!

- **£2 discount on all standard film tickets**
- **25% discount on all Special Events tickets**
- **10% discount on our shop items**
- **Advance booking for Special Events**
- **Secret Sundays!!**

## 5 rheswm gorau i ddod yn aelod!

- **£2 o ostyngiad ar bris pob tocyn ffilm arferol**
- **Gostyngiad o 25% ar docynnau Digwyddiadau Arbennig**
- **Gostyngiad o 10% ar eitemau yn ein siop**
- **Archebu Ymlaen Llaw ar gyfer Digwyddiadau Arbennig**
- **Dyddiau Sul Dirgel!!**

## Secret Sundays!

On the last Sunday of every month we hold a **FREE** secret screening for our Members.

Watch a film, meet other members, find out from the Lantern Team what's coming up - and tell us your ideas for what you would like to see at the cinema!

If the film isn't to your taste, we're fine for you to leave. But our experience is that there is something quite special about watching a film with no prior knowledge or preconceptions and we will always do our best to choose interesting, quality films.

Feel free to pop in just for the pre-film chat too!

Doors open at 5pm with film starting around 6pm.

## Dyddiau Sul Dirgel!!

Ar y Sul olaf o bob mis rydym yn cynnal dangosiad dirgel AM DDIM i'n Haelodau.

Gwyliwch ffilm, dewch i gwrdd ag aelodau eraill, dysgwch beth sy'n digwydd gan Dîm y Magic Lantern - a dywedwch wrthym beth yw eich syniadau ar gyfer beth hoffech chi ei weld yn y sinema!

Os nad yw'r ffilm at eich dant, yna mae popeth yn iawn i chi adael. Ond o'n profiad ni, mae yna rywbeth eithaf arbennig am wylio ffilm heb unrhyw wybodaeth na rhagdybiaethau ymlaen llaw a byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i ddewis ffilmiau diddorol, o safon,

Mae croeso i chi daro i mewn dim ond ar gyfer sgwrs cyn y ffilm yn unig hefyd!

Mae'r drysau'n agor am 5pm gyda'r ffilm yn dechrau oddeutu 6pm.

## Warm Food and Warm Spaces with Tywyn Community Hub

**JOIN US at the Magic Lantern on Mondays and Fridays:**
Mondays 11am – 3pm: for a movie, hot drink, and some yummy soup after the film – **ALL FREE!**

If the film isn't for you, please just come along between 1pm and 3pm for a hot drink and soup!

Fridays 1.30pm - 5pm FREE soup and hot drink – you can pop in and enjoy or chill out all afternoon with board games and a bit of chat!

## Bwyd Cynnes a Llefydd Cynnes gyda Hwb Cymunedol Tywyn

**YMUNWCH Â NI yn y Magic Lantern ar ddyddiau Llun a Gwener:**

**Dyddiau Llun 11am - 3pm: ar gyfer ffilm, diod boeth a chawl blasus wedi'r ffilm - Y CYFAN AM DDIM!**

**Os nad ydych chi awydd ffilm, mae croeso i chi ddod draw rhwng 1pm a 3pm ar gyfer diod boeth a chawl!**

**Dyddiau Gwener 1.30pm - 5pm Cawl a diod boeth AM DDIM - gallwch daro heibio a mwynhau neu ymlacio drwy'r prynhawn gyda gemau bwrdd ac ychydig o sgwrs!**

TYWYN COMMUNITY HUB • HWB CYMUNEDOL •

## STAND OUT with the Lantern

All celebrations are special, so we LOVE adding our Magic to the parties and events we host. Have a chat with us about how your event can stand out!

**E: saramagiclantern@gmail.com**







## GWNEWCH RYWBETH ARBENNIG gyda'r Lantern

**Mae pob dathliad yn arbennig, felly rydym yn CARU ychwanegu ein hud a lledrith i'r partïon a'r digwyddiadau rydym yn eu cynnal. Dewch draw i gael sgwrs gyda ni i weld sut y gall eich digwyddiad chi fod yn un arbennig!**
**E: saramagiclantern@gmail.com**





## SNUGGLE UP with the lantern!

In a dark month, brighten your days with a treat from our Little Shop of Goodies – snuggle up with a Magic Lantern hoodie or beanie!!

## GWNEWCH EICH HUN YN GYSURUS yn y Lantern!

**A hithau'n fis tywyll beth am ddod ag ychydig o gysur i'ch dyddiau gyda danteithion o'n siop a chwtshio lan gyda hwdi neu het Magic Lantern!!**

## Gifts




Movie Mayhem Board Game .......... **£19.99**






Movie Bucket List Scratch Cards .......... **£9.99**
Movie Night Coupons .......... **£5.99**
Movie Trivia Cards .......... **£4.99**





Vinyl Coasters .......... **£9.99**
100 Movies Scratchbook .......... **£24.99**
100 Bucket List Movies Posters .......... **£12.99**





## Magic Lantern Merchandise

Magic Lantern Mugs .......... **£5**





Magic Lantern Postcard .......... **£1**
Magic Lantern Beanies .......... **£8**

**SNUGGLE UP with the lantern!**
In a dark month, brighten your days with a treat from our Little Shop of Goodies – snuggle up with a Magic Lantern hoodie or beanie!!



Magic Lantern Hoodies .......... **£25**

## Games

Uno Minecraft .......... **£12.99**
Splendor Marvel .......... **£38.99**
Smash Up Marvel .......... **£34.99**







Munchkin Marvel & Disney .......... **£29.99**

Pandemic Star Wars .......... **£59.99**




Harry Potter Hogwarts Battle .......... **£49.99**




Dobble Pixar .......... **£15.99**
Dixit Disney .......... **£32.99**






Codenames Disney .......... **£24.99**
Brain Box Harry Potter .......... **£15.00**






# BOX OFFICE OPENING TIMES

**If you book 24 hours in advance you can save money!**

**Call in or phone the Box Office:**

| | | |
|---|---|---|
| Monday - Saturday | - | 2pm – 9pm |
| Sunday | - | 10am – 4pm |

Book online at **www.tywyncinema.co.uk**
Telephone: **01654 710260**

## Parking

There are 3 general and two disabled parking bays directly in front of the cinema and several parking spaces across the road and next to the Corbett Hotel. You can also find two free car parking areas on Ffordd Gwalia, the road directly between the cinema and St Cadfan's Church.

## Dogs

If your dog will sit quietly throughout the film you are welcome to bring them, on their lead, in the STALLS but not on the balcony. However, if your dog starts to cause a disruption, you will need to remove them, without any associated refund.

## Prices

Book 24 hours in advance, online, over the phone or at the Box Office to receive a £1 discount on all tickets.

| | |
|---|---|
| Standard Adult (15 - 60) | **£8.50** |
| Members | **£6.50** |
| Child (1 - 14) | **£7.50** |
| Senior (60+) | **£7.50** |

# ORIAU AGOR Y SWYDDFA DOCYNNAU

**Os ydych yn archebu 24 awr ymlaen llaw gallwch arbed arian!**

**Galwch i mewn neu ffoniwch y Swyddfa Docynnau:**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun - Dydd Gwener | - | 2pm – 9pm |
| Dydd Sul | - | 10am – 6pm |

Archebwch ar-lein yn **www.tywyncinema.co.uk**
Ffôn: **01654 710260**

## Parcio

Ceir tri man parcio cyffredinol a dau ar gyfer pobl anabl yn union o flaen y sinema, ynghyd â nifer o fannau parcio dros y ffordd, y drws nesaf i Westy'r Corbett Hotel. Gallwch ddod o hyd i ddau fan parcio am ddim ar Ffordd Gwalia hefyd, sef y ffordd sy'n union rhwng y sinema ac Eglwys Sant Cadfan.

## Cŵn

Os bydd eich ci yn eistedd yn dawel drwy gydol y ffilm, mae croeso ichi ddod ag ef gyda chi, ar dennyn. Cewch eistedd yn y seddi ar y llawr gwaelod, ond ni chewch eistedd ar y balconi. Ond pe bai eich ci yn dechrau cynhyrfu, bydd angen ichi ei dywys o'r sinema, heb unrhyw ad-daliad cysylltiedig.

## Prisiau

Archebwch 24 awr ymlaen llaw, ar-lein, dros y ffôn neu yn y Swyddfa Docynnau i dderbyn gostyngiad o £1 ar bob tocyn.

| | |
|---|---|
| Oedolyn Safonol (15 - 60) | **£8.50** |
| Aelodau | **£6.50** |
| Plentyn (1 - 14) | **£7.50** |
| Hŷn (60+) | **£7.50** |

*Answers to the Cryptic Quiz from page 16 - 1. Star Wars. 2. Gone In 60 Seconds. 3. The Lost Boys*

Magic Lantern Cinema Ltd
Corbett Square, Tywyn,
Gwynedd LL36 9DF
Telephone: 01654 710260

Designed and produced by SCOTT TAYLOR Design & Artwork - 07790 442103